**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-805
Ein cyf/Our ref KW/07643/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

09 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr, mewn perthynas â P-05-085 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi, ac am ystyried y ddeiseb ynghylch athrawon cyflenwi yng Nghymru - Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a'r cynllun peilot clwstwr cyflenwi mewn ysgolion.

Daeth fframwaith newydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) i rym ym mis Medi 2019, ac mae'r GCC wedi bod yn ei hyrwyddo i awdurdodau lleol drwy eu rhwydweithiau caffael. Mae'r GCC wedi cynnal dau gyfarfod gydag awdurdodau lleol ers dyfarnu'r fframwaith er mwyn darparu eglurder a chyfathrebu ynghylch y newidiadau a wnaed i'r cytundeb a sut y gellir ei roi ar waith gydag ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn hyrwyddo'r defnydd o'r fframwaith drwy Dysg, Hwb a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gwariant dan y cytundeb newydd wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r fframwaith blaenorol gyda New Directions o tua £1.75m i £4.5m (wrth gymharu gwariant cymharol mis Medi 2018 yn erbyn gwariant mis Medi 2019). Bydd y GCC yn medru cymharu'r gwariant ar/oddi ar y fframwaith pan fydd y data ar gael yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ond mae'r ffigurau cychwynnol yn dangos bod y rhan fwyaf o wariant yr asiantaethau yng Nghymru bellach yn mynd drwy'r fframwaith, gan ganiatáu i'r GCC fod yn fwy gweledol a chael mwy o reolaeth dros y farchnad.

Mae'r ffigurau cychwynnol hefyd yn dangos bod dros 300 o weithwyr wedi derbyn hyfforddiant drwy asiantaethau'r fframwaith. Ar ben hynny, mae 24 allan o'r 27 o asiantaethau a benodwyd wedi llofnodi cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi, ac mae 27 o swyddi wedi cael eu creu yng Nghymru i helpu i weithredu'r fframwaith.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r GCC wedi bod yn monitro cyfraddau cyflog, gan weithredu ar adborth gan athrawon cyflenwi, adolygu gwefannau/hysbysebion swyddi a thrafod gydag asiantaethau i roi sylw i unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth. Mewn achosion lle'r oedd problem yn codi gydag asiantaeth, cywirwyd hynny ar unwaith.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod rhwng y GCC a New Directions, yr asiantaeth fwyaf ar y fframwaith, fel rhan o'u gwaith rheoli contract, ac maent wedi adrodd bod tua 88% o'u harchebion am athrawon cyflenwi ym mis Medi wedi bod ar isafswm y gyfradd gyflog. Nid oedd y 12% sy'n weddill ar yr isafswm, ar gais yr ysgol.

Y tueddiad yn yr ohebiaeth sy'n dod i law y GCC ar hyn o bryd yw mai'r ysgolion sy'n gwneud y penderfyniad i beidio talu isafswm y gyfradd gyflog. Pan fo hyn yn dod i sylw'r GCC, naill ai drwy asiantaeth neu athro cyflenwi, mae'r mater yn cael ei adrodd yn ôl i'r awdurdod lleol unigol er mwyn iddynt godi'r mater gyda'r ysgol dan sylw.

Gan mai dim ond ers mis Medi mae Fframwaith y GCC wedi bod yn weithredol, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno newidiadau statudol. Mae'n bwysig i ni ganiatáu amser i'r trefniadau sefydlu eu hunain, i gywiro materion sy'n codi a monitro gwelliannau. Bydd y GCC yn rhoi rhagor o wybodaeth i mi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, pan fydd y tymor llawn cyntaf wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol, gyda gwelliannau o ran cydymffurfiaeth yr asiantaethau a gwariant drwy'r cytundeb yn cynyddu'n sylweddol.

Cyhoeddodd Arad Research ei adroddiad cychwynnol ar y prosiect clwstwr cyflenwi mewn ysgolion ar 12 Tachwedd. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at nifer o fanteision i ysgolion a fu'n cymryd rhan yn y prosiect, yn amrywio o ganlyniadau cadarnhaol clir o ran addysgu a dysgu, ymddygiad disgyblion, datblygiad proffesiynol, gwella ysgolion yn ehangach, cymorth i athrawon cyflenwi a chysondeb o ran addysgu a dysgu. Bydd adroddiad terfynol Arad Research yn dilyn ym mis Awst 2020, ac yn ystyried cynaliadwyedd y prosiect yn dilyn y drydedd flwyddyn olaf. Byddwn nawr yn ystyried dichonoldeb cefnogi ail gam y prosiect, ac fe fyddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn yn y man.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education